OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 14

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018

**Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**19.** Ym mharagraff 37 (cyfrifo incwm wythnosol: pensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (3A)—

(i) ym mharagraff (a) yn lle "ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio" rhodder "ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd";

(ii) yn lle paragraffau (b) ac (c) rhodder—

"(b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo'r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod y mae'r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd; neu

(c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog y ceisydd o gyflogaeth yn newid, y diwrnod y mae enillion y ceisydd o gyflogaeth yn newid, er mwyn ei gwneud yn ofynnol ailgyfrifo o dan y paragraff hwn, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd.";

(b) yn is-baragraff (4A)—

(i) ym mharagraff (a) yn lle "ni waeth pa un a gafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd yn ystod yr wythnos ostyngiad honno ai peidio" rhodder "ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd";

(ii) yn lle paragraffau (b) ac (c) rhodder—

"(b) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo'r ceisydd yn cychwyn cyflogaeth, y diwrnod y mae'r ceisydd yn cychwyn y gyflogaeth honno, a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd; neu

(c) yn achos cais neu ostyngiad o dan gynllun pan fo enillion wythnosol cyfartalog y ceisydd o gyflogaeth yn newid, y diwrnod y mae enillion y ceisydd o gyflogaeth yn newid a diwrnod cyntaf pob wythnos ostyngiad ar ôl hynny, ni waeth pryd y cafwyd yr enillion hynny mewn gwirionedd."